Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2025 – Mehefin 2025

Our five principles for keeping communities safe

PEOPLE PREVENTION PROTECTION RESPONSE ENVIRONMENT

## Cynnwys


**Ein Hegwyddor Pobl ..... 2**

1 Absenoldeb Salwch ..... 2

1.1 Pob Absenoldeb Salwch ..... 2

1.2 Salwch Tymor Byr ..... 3

1.3 Salwch Hirdymor ..... 5

1.4 Cymhariaeth Cymru Gyfan ..... 7

**Ein Hegwyddor Atal ..... 8**

2 Pob Digwyddiad ..... 8

3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant ..... 9

4 Tanau Damweiniol mewn Anheddau ..... 11

5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau ..... 12

6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau 14

7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau ..... 15

8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig ..... 17

9 Archwiliadau Diogel ac Iach ..... 19

**Ein Hegwyddor Diogelu ..... 22**

10 Galwadau Diangen ..... 22

11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol ..... 23

12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai ..... 24

..... 24

13 CEF Berwyn ..... 24

**Ein Hegwyddor Ymateb ..... 26**

14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad ..... 26

15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd ..... 28

16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg ..... 29

**Ein Hegwyddor Amgylchedd ..... 30**

16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau ..... 30

17 Tanau gwyllt ..... 31

18 Llifogydd ..... 32

**Geirfa ..... 33**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, ar gyfer GTAGC, oherwydd yr holl absenoldeb salwch wedi cynyddu o 4.51% yn ystod chwarter pedwar i 5.12% yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd 946 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 30/06/2025, sy'n gynnydd o 35 o bobl o'r un cyfnod yn 2024/25; fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd yr holl absenoldeb salwch fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol, gan ddangos gwelliant parhaus mewn lefelau absenoldeb salwch.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (YTD) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch




Er bod nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb yn chwarter un 2025/26 wedi cynyddu o'i gymharu â'r chwarter blaenorol, mae nifer yr achosion cyffredinol yn parhau i fod ar ei isaf dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un y flwyddyn


bresennol ychydig yn uwch na'r dyddiau a gollwyd yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd yn nifer y rhai a gyflogir.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

## 1.2 Salwch Tymor Byr

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb tymor byr yn 1.12% o'r holl amser a gollwyd.

Roedd Salwch Tymor Byr yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol yn cyfateb i 1.13% o'r amser a gollwyd, sy'n ostyngiad o'i gymharu ag 1.47% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod chwarter un y flwyddyn flaenorol.




(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a bod Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol.)

Er bod nifer yr achosion o salwch tymor byr gan weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn a'r system dyletswydd ar alwad wedi gostwng yn chwarter un o chwarter pedwar, mae nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un wedi cynyddu ar gyfer y ddau. Roedd 37% o'r achosion o salwch tymor byr gan weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn yn

absenoldeb cyhyrysgerbydol, gyda'r absenoldebau hyn yn para 10.2 diwrnod calendr ar gyfartaledd fesul gweithiwr.

Yn Adroddiad Absenoldeb Salwch y Gwasanaethau Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, rhesymau cyhyrysgerbydol oedd 29% o'r holl resymau absenoldeb salwch, gyda rhesymau cyhyrysgerbydol yn rheswm uchaf dros bob absenoldeb i weithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn (32%) a'r system dyletswydd ar alwad (35%).

Adroddwyd bod 15% o'r achosion o salwch tymor byr yn ystod chwarter un y flwyddyn bresennol oherwydd gastroenteritis a 7% yn ychwanegol oherwydd rhesymau gastroberfeddol. Roedd y rheswm hwn dros absenoldeb yn uchel yn ystod chwarter un a chwarter dau y flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau i fod yn rheswm cyffredin am salwch tymor byr. (Mae gastroenteritis yn cyfeirio at lid y stumog a'r coluddyn a achosir yn aml gan haint, tra bod gastroberfeddol yn disgrifio'r llwybr treulio cyfan)

**Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl nifer yr achosion)**

| | **Rheswm am Absenoldeb** | **Achosion** | **Amser a gollwyd %** |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff | 12 | 13.67% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 12 | 13.57% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau'r cefn a'r asgwrn cefn | 9 | 8.32% |

*Mae 'Amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*

Mae'r tri phrif reswm am absenoldeb tymor byr yn seiliedig ar nifer yr achosion yn ystod chwarter un 2025/26 wedi newid o'r rhesymau yn ystod 2024/25, ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â rhesymau cyhyrysgerbydol yw'r tri phrif reswm. Rhesymau annwyd/ffliw oedd y rheswm uchaf am absenoldeb tymor byr trwy gydol y flwyddyn 2024/25, ond dim ond 3% o'r amser a gollwyd i absenoldeb yn ystod chwarter un yn y flwyddyn bresennol oedd am y rheswm hwn.

Mae amser a gollwyd oherwydd absenoldeb am resymau cyhyrysgerbydol aelodau uchaf ac isaf y corff yn cyfrif am 13.67% ac 13.57%, yn y drefn honno, o'r holl salwch tymor byr yn ystod chwarter un. Roedd 76% o'r holl salwch tymor byr cyhyrysgerbydol yn gysylltiedig â gweithwyr ar y system dyletswydd amser cyflawn a'r system dyletswydd ar alwad.


Er y bu cynnydd nodedig mewn rhesymau absenoldeb cyhyrysgerbydol tymor byr yn ystod chwarter un, nodir hefyd bod nifer y gweithwyr sy'n manteisio ar y triniaethau ffisiotherapi a ddarperir gan y Gwasanaeth hefyd

wedi cynyddu oddeutu 50% yn ystod chwarter un o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

## 1.3 Salwch Hirdymor

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldeb hirdymor yn 4.23% o'r amser a gollwyd.

Roedd salwch hirdymor yn 3.99% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter un, o'i gymharu â 3.49% yn chwarter pedwar a 3.78% yn chwarter un y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb hirdymor yn ystod chwarter un wedi cynyddu o'i gymharu â chwarter pedwar, tra bod nifer yr achosion wedi gostwng neu aros ar lefelau tebyg yn gyffredinol, ac eithrio achosion mewn rolau corfforaethol, sydd wedi cynyddu yn ystod chwarter un.




**Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl nifer yr achosion)**

| | Rheswm am Absenoldeb | Achosion | Amser a Gollwyd % |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 14 | 20.64% |
| 2 | Iechyd Meddwl - Straen | 12 | 17.64% |
| 3 | Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd | 7 | 10.6% |

*Mae 'Amser a gollwyd %' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*

Mae'r tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor wedi aros yn debyg yn chwarter un 2025/26 i'r hyn a gafwyd yn ystod 2024/25.

Cyhyrysgerbydol – Mae absenoldeb oherwydd aelodau isaf y corff yn parhau i fod yn gyfrifol am y nifer uchaf o achosion ac amser a gollwyd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond, oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn osgoi gwaethygu'r anaf neu achosi anaf arall. Roedd absenoldeb oherwydd unrhyw reswm cyhyrysgerbydol yn ystod chwarter un wedi para 50.3 diwrnod calendr fesul gweithiwr ar gyfartaledd. Mae gweithwyr yn cael eu hystyried ar gyfer dyletswyddau wedi'u haddasu lle bo hynny'n berthnasol, i gynorthwyo dychwelyd i'r gwaith ac fel llwybr i ddychwelyd i ddyletswyddau llawn.

Mae absenoldeb iechyd meddwl yn cael ei gofnodi ar wahân er mwyn nodi'r gwahanol resymau am les meddyliol gwael - straen, gorbryder, rhesymau eraill (sy'n cynnwys ffobia, profedigaeth, trawma/Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD)) ac iselder yw'r rhesymau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd o fewn y Gwasanaeth. Yn gyffredinol, yn ystod 2024/25, roedd yr holl absenoldeb iechyd meddwl yn 19% o'r holl achosion absenoldeb; mae hyn yn is na'r 23% a adroddwyd yn adroddiad Salwch y Gwasanaethau Tân ac Achub Cenedlaethol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

Mae 'absenoldeb hirdymor oherwydd iechyd meddwl - straen' yn parhau i fod ymhlith y tri phrif reswm am absenoldeb salwch hirdymor ar gyfer chwarter un. Mae nifer yr achosion o salwch hirdymor oherwydd straen wedi cynyddu eto i 12 yn ystod chwarter un, o'i gymharu â saith yn ystod chwarter pedwar; fodd bynnag, nid yw'r dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter un yn uwch na'r dyddiau a gollwyd yn ystod chwarteri dau a thri 2024/25.

Er bod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn achosion iechyd meddwl, mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu ar draws y wlad, fel yr adroddwyd gan fwletin ystadegau misol y GIG. Mae nifer yr oedolion sy'n cael cymorth iechyd meddwl wedi cynyddu o 1.1 miliwn ym mis Gorffennaf 2023 i 1.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2024.

Mae cefnogaeth yn cael ei darparu i weithwyr sy'n absennol oherwydd rhesymau iechyd meddwl a chyhyrysgerbydol, gan gynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, y rhaglen cymorth i weithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, fel Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl a gwasanaethau penodol eraill.

## 1.4 Cymhariaeth Cymru Gyfan

Nifer y dyddiau shifft cyfartalog a gollwyd fesul person ar gyfer pob absenoldeb (tymor byr a hirdymor) ar sail Cymru gyfan oedd 11.62 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff amser cyflawn mewn lifrai, 17.72 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff yr Ystafell Reoli, ac 14.76 diwrnod shifft fesul person ar gyfer staff anweithredol.

O'i gymharu â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r nifer isaf o ddyddiau shifft a gollwyd fesul person oherwydd absenoldebau hirdymor a thymor byr ar draws y tri math o ddyletswydd o blith y tri gwasanaeth.

| **Nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd oherwydd salwch** | **GTADC** | **GTACGC** | **GTAGC** |
|---|---|---|---|
| Staff amser cyflawn mewn lifrai | 13.54 | 9.54 | **9.02** |
| Staff yr Ystafell Reoli | 23.70 | 16.66 | **12.19** |
| Staff anweithredol | 21.24 | 10.40 | **10.09** |

Sylwer, mae'r data Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, gyda'r fersiwn diweddaraf wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2024, ac mae'n adrodd ar ddata absenoldeb ar gyfer staff amser cyflawn, staff yr ystafell reoli a staff corfforaethol yn unig ac nid yw'n cynnwys data am staff ar alwad.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Pob Digwyddiad

**Pob Digwyddiad** – Aethpwyd i **1,809** o ddigwyddiadau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n gynnydd o 17.0%. Mae hyn hefyd 13.9% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 1,589.

**Tanau** – **712**, cynnydd o 70.7%, a 33.3% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 534.


**Galwadau Diangen** - **791**, gostyngiad o 0.8%, ond 9.3% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 724.

**Galwadau Gwasanaeth Arbennig** - **306**, gostyngiad o 7.8%, a 7.6% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd chwarter un o 331.




## 3 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliant

Aethpwyd i **712** o danau: cynnydd o 70.7% o 417.




| | Damweiniol | Bwriadol | Cyfanswm | +/- |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Danau** | 207 | 46 | **253** | **24.0%** |
| **Tanau Eilaidd** | 286 | 160 | **446** | **129.9%** |
| **Tanau Simdde** | 13 | 0 | **13** | **-31.6%** |



**Camau gweithredu hyd yma:**

Ar ddiwedd Chwarter Un, cwblhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gyfanswm o **4,722** o Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae ymdrechion yn parhau i ganolbwyntio ar wella nifer ac ansawdd yr atgyfeiriadau trwy gydweithio cryfach ag asiantaethau partner.

Er mwyn gwella'r gwaith o dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o dân, mae GTAGC wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cynnal Gofalwyr, Dŵr Cymru, SP Energy, Gofal a Thrwsio, Dementia Support Services, Cymorth i Ddioddefwyr, a Grŵp Llywio Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r sesiynau ymgysylltu pwrpasol hyn wedi cefnogi cyflwyno gweithgareddau atal mwy effeithiol sy'n seiliedig ar risg.

O ran ymgysylltu ag ieuenctid:

- Cafodd **1,520** o blant a phobl ifanc addysg diogelwch tân yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, er gwaethaf llai o gapasiti oherwydd bod un Addysgwr ar absenoldeb mamolaeth.
- Cyflwynwyd **pedwar** cwrs Ffenics, gan ymgysylltu â **33** o bobl ifanc, gyda **29** yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus—gan ddangos cyfradd gref o ran cadw, ac effaith gref hefyd.

Cyfrannodd GTAGC hefyd at ddiogelwch cymunedol ehangach trwy:

- Ddiwrnod aml-asiantaeth ym Mhenrhosgarnedd, yn cefnogi ymgysylltu a gwelededd lleol.
- Cynllunio parhaus gyda Heddlu Gogledd Cymru o dan y fframwaith Clirio, Cynnal, Adeiladu (Clear, Hold, Build) i fynd i'r afael â bregusrwydd a gwydnwch cymunedol.

Mae ymgyrchoedd ar gyfer y cyhoedd wedi cael eu defnyddio'n strategol ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar:


- Ddiogelwch yn y Gegin
- Diogelwch yn yr Haf
- Diogelwch Barbeciws Tafladwy

Nod yr ymgyrchoedd hyn yw lleihau risgiau tanau tymhorol a risgiau tanau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad trwy negeseuon wedi'u targedu ac addysg gymunedol.

## 4 Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Aethpwyd i **73** o danau damweiniol mewn anheddau, cynnydd o 5.8% o 69.

Er bod hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n bwysig nodi bod hyn yn dal i fod 8.8% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 80, ac mae hefyd yn sylweddol llai na nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt yn ystod y blynyddoedd ariannol cyn 2024/25.



## 5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Anheddau


Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod y chwarter. Y mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau hylosg yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)', a ddangosodd gynnydd o 110.0% o 10 i **21**.

Ymhlith y prif achosion eraill a welodd gynnydd neu a arhosodd yn gyson â'r un cyfnod y llynedd roedd:

- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal', a gynyddodd 75.0% o bedwar i **saith**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu ddyfais (ffynhonnell gwres)', a arhosodd yn gyson ar **chwe** digwyddiad.
- 'Nam ar offer neu declyn', a arhosodd yn gyson ar **bum** digwyddiad.

Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y chwarter hwn. Roeddent yn cynnwys:

- 'Coginio – arall', a ostyngodd 30.8% o 13 i **naw**.
- ‘Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan’, a ostyngodd 20.0% o 10 i **wyth**.
- 'Arall', a ostyngodd 16.7% o chwech i **bump**.



**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae'r tîm Atal yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i ddatblygu negeseuon cyfryngau cymdeithasol a fideos byr sy'n canolbwyntio ar risgiau gosod eitemau yn rhy agos at ffynonellau gwres. Mae'r holl Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref wedi cael eu briffio i hysbysu ac addysgu preswylwyr, ac mae Penaethiaid Gorsafoedd wedi rhaeadru'r neges i griwiau gweithredol.

**Ymgyrchoedd a Mentrau**
Dosbarthwyd negeseuon allweddol trwy GovDelivery i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cofrestru.

**Ymgyrch Diogelwch Coginio** (21 – 27 Ebrill)
Ymgyrch yn canolbwyntio ar hyrwyddo arferion coginio diogel.

Rhoddwyd canllawiau ychwanegol i orsafoedd tân ynghylch y duedd sy'n dod i'r amlwg o gamddefnyddio Ffriwyr Aer. Darparwyd gwybodaeth trwy Archwiliadau Diogel ac Iach.

**Wythnos Gweithredu ar Ddementia**
Cyfres o weithgareddau ac ymgysylltiadau yn ystod Wythnos Gweithredu ar Ddementia:

Cymryd rhan mewn Taith Gerdded Dementia, meithrin rhyngweithio â grwpiau a gofalwyr dementia lleol a hyrwyddo adnoddau diogelwch tân wedi'u teilwra i anghenion pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

**Wythnos Gofalwyr**
Ymgysylltu â Carers Wales i godi ymwybyddiaeth o Archwiliadau Diogel ac Iach ac ymyriadau ar gyfer gofalwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi.

**Ymgyrch Diogelwch yr Haf**
Ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddigwyddiadau a llwyfannau digidol gan ganolbwyntio ar risgiau diogelwch tymhorol gyda negeseuon wedi'u targedu ynghylch diogelwch tân a barbeciws tafladwy.

**Camau Gweithredu Pellach:**


Mae ymgyrch goginio arall wedi'i chynllunio ar gyfer mis Medi.

Ymgyrchoedd parhaus wedi'u targedu yn seiliedig ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd.

## 6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Anheddau

Cafodd **16** o bobl anafiadau mewn **13** tân damweiniol mewn annedd. Ni chofnodwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y chwarter.

Mae nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i dân damweiniol mewn annedd wedi cynyddu 23.1%. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Anheddau lle cofnodwyd anaf hefyd wedi cynyddu 18.2%.




O'r **16** a anafwyd, cafodd **12** (75.0%) eu 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau tocsig; mygu', roedd gan **un** 'anawsterau anadlu (ac eithrio 'llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau tocsig; mygu')', cafodd **un** fân losgiadau, ac roedd gan **un** 'gyfuniad o losgiadau ac wedi'i lethu gan nwy/mwg'. Cofnodwyd math o anaf yr **un** sy'n weddill fel 'Arall'.


## 7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Anheddau

**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **61** (83.6%) o’r tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt.

Roedd larymau'n weithredol ac wedi rhoi rhybudd mewn **45** (61.6%) o’r tanau damweiniol mewn anheddau.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **12** o'r tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt.

O'r 73 o danau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt, roedd **66** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **7** heb eu cyfyngu.



**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi**

Mae gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriw Dydd bellach yn darparu dwy awr o weithgareddau atal wedi'u targedu gan ddefnyddio data Exeter y GIG i nodi aelwydydd gyda phreswylwyr 65+, 75+ ac 80+ oed, gan alluogi cynnal archwiliadau diogel ac iach penodol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Mae gwaith wedi'i dargedu mewn ardaloedd ar ôl digwyddiadau (*hot spotting*) yn parhau i fod yn sail i lefelau ymateb wedi'u teilwra.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch tân, ffyrdd, a dŵr ar draws llwyfannau cyfryngau.


**Ymgysylltu Addysgol – Ch1:**

- Ysgolion Cynradd: **10** ymweliad, **490** o ddisgyblion
- Criw Craidd: **6** digwyddiad, **790** o ddisgyblion
- Cylch Meithrin: **3** ymweliad, **70** o blant
- Gwasanaeth Tanau Bwriadol: **1** sesiwn, **170** o ddisgyblion
- Ffenics: **4** cwrs, **33** yn astudio (**29** wedi cwblhau)
- Ymyriadau Cynnau Tân: **36** o atgyfeiriadau
- Pentre Peryglon: Ymgysylltwyd â **1,850** o bobl ifanc a **631** o ymwelwyr cyhoeddus trwy senario Diogelwch yn y Cartref.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

Aethpwyd i gyfanswm o **306** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd). Mae hyn yn ostyngiad o 7.8%.

Cafwyd cynnydd bach yn nifer y Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr aethpwyd iddynt, sef **67** o ddigwyddiadau.




Roedd y prif gategorïau Galwadau Gwasanaeth Arbennig (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd) yn cynnwys:

- **116** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 7.4% o 108.
- **31** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 19.2% o 26.
- **18** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' – cynnydd o 20.0% o 15.
- **10** digwyddiad 'Dim gweithredu (nid galwad ddiangen)' – arhosodd hyn yn gyson â chyfanswm chwarter un y llynedd.

Er gwaethaf hyn, roedd gan un categori **ostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd iddynt:

- **16** digwyddiad 'Rhyddhau o Lifft' – gostyngiad o 5.9% o 17.

**Camau gweithredu hyd yma:**

Cyflwynodd y tîm Atal naw sesiwn *Stori Olivia*, gan ymgysylltu â **274** o bobl ifanc 16–25 oed, gan gynnwys allgymorth yng Ngholeg Cambria a gwersylloedd hyfforddi Cadetiaid y Fyddin. Cydweithiodd y tîm hefyd â Heddlu Gogledd Cymru ar gyflwyno Marciau PRIME i wella diogelwch beicwyr a buont yn cyd-gyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth o gyflymder yn Ysgol Uwchradd Prestatyn.

Cynhaliodd Ymgyrch Ugain **470** o ymgysylltiadau ar ochr y ffordd yn targedu goryrwyr 20mya, gyda **33** o erlyniadau. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ymestyn oherwydd canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Ymgysylltwyd â **35** o feicwyr modur mewn dwy sesiwn *BikerDown*, gan gwmpasu rheoli safle, cymorth cyntaf, ac atal damweiniau. Cefnogodd y tîm Ymgyrch Darwin/Apex a chynnal digwyddiad *Biker Brew* aml-asiantaeth yng Nghorwen, sy'n llwybr risg uchel o ran nifer y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol.

Hyrwyddwyd ymgyrchoedd diogelwch dŵr (*#BeWaterAware, Arnofio i Fyw/Float to Live*) trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'r cyhoedd ym Mangor. Cyflwynwyd hyfforddiant i geidwaid Pentre Peryglon a disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol y Garnedd.

Fe wnaeth yr ymgyrch diogelwch plant *Ble Mae'r Peryglon?/Spot the Dangers* godi ymwybyddiaeth o beryglon dŵr trwy sesiynau rhyngweithiol mewn ysgolion a grwpiau cymunedol.


## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhawyd cyfanswm o **4,722** o Archwiliadau Diogel ac Iach, ac o'r rhain:

- Roedd **1,270** (26.9%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **684** (53.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **1,019** (21.6%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **73** (7.2% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **2,433** (51.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **76** (3.1% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.


Cafodd cyfanswm o **833** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn 17.6% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Bu gostyngiad o **5.7%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; fodd bynnag, bu cynnydd o **7.2%** yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, a chynnydd o **13.1%** yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd. Mae'r gostyngiad yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd felly i'w ystyried yng nghyd-destun gostyngiad yn nifer yr archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd.




Yn ystod chwarter un, cwblhawyd 90% o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach o fewn eu dyddiad cwblhau targed. Mae hyn yn cyfateb i 4,246 o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd yn ystod y chwarter.

Pob Archwiliad yn ôl Dyddiau Dros Gyrhaeddiad Targed




Archwiliadau Blaenoriaeth Uchel yn ôl Dyddiau Dros Gyrhaeddiad Targed



**Camau gweithredu hyd yma:**

Parhaodd staff Atal i gynnal sesiynau ymgysylltu â phartneriaid allanol er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau mwyaf penodol yr ydym yn eu cael ar gyfer Archwiliadau Diogel ac Iach. Mae enghreifftiau o'r rhai yr ymgysylltwyd â hwy yn ystod chwarter un yn cynnwys ymgysylltiad â Carers Wales.

Mae'r Adran Atal wedi newid rôl y Rheolwyr Partneriaethau, sydd wedi symud o fod yn gyfrifol am ardal i fod yn gyfrifol am swyddogaeth. Dyma'r swyddogaethau: rheoli Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, rheoli gweithgarwch partneriaethau ac ymgysylltu, a Diogelu.

Rhoddwyd gwybodaeth i orsafoedd ynglŷn â chofnodi preswylwyr risg uchel, canolig, ac isel ac Archwiliadau Diogel ac Iach yn gywir ac mae hyn wedi cael effaith ar y cofnodi.

Mae gorsafoedd amser cyflawn yn defnyddio data Exeter i dargedu'r rhai sy'n fwy agored i niwed h.y. 65 oed + wrth gynllunio gweithgareddau atal y gorsafoedd.

Mae'r staff Atal yn monitro pob digwyddiad ar CadView mewn cyfarfodydd bob tair wythnos i ganfod a yw Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal. Cymerir camau dilynol i sicrhau bod Archwiliadau Diogel ac Iach a/neu ymweliadau ychwanegol gan Weithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref yn cael eu cynnal yn ôl yr angen wedi pob digwyddiad.

Mae gwaith sicrwydd ansawdd wedi'i gynnal ynghylch Archwiliadau Diogel ac Iach i sicrhau bod arfer da wedi'i rannu â gorsafoedd amser cyflawn a chriw dydd.

Mae methodoleg newydd o gofnodi camau gweithredu a gymerwyd gan staff atal wedi'i chyflwyno i sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cymryd a'u cwblhau ar gyfer yr holl dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r holl ddigwyddiadau nodedig.


Mae criwiau amser cyflawn yn ymgymryd â dwy awr o weithgareddau atal er mwyn cyrraedd y targed o chwe Archwiliad Diogel ac Iach y dydd. Cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gorsafoedd a darparu gwybodaeth i'w galluogi i wneud gwaith rheoli perfformiad ar y targedau Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhelir gan griwiau dydd cyflawn.


# Ein Hegwyddor Diogelu

**10 Galwadau Diangen**

Aethpwyd i gyfanswm o **791** o alwadau diangen, sy'n ostyngiad o 0.8%. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd iddynt ar draws pob math o eiddo.


Mae cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y digwyddiadau Galwadau Diangen Diffuant yr aethpwyd iddynt, gyda chynnydd o 34.8% wedi'i gofnodi o 264 i **356**. Er gwaethaf hyn, gellir gweld gostyngiad mewn galwadau diangen Maleisus, a ostyngodd 45.0% o 20 i **11**, a hefyd mewn larymau tân oherwydd digwyddiadau gydag Offer, a ostyngodd 17.3% o 513 i **424**.




## 11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol

Derbyniwyd **418** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd pob un ac eithrio **un** yn ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.




## 12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai

Derbyniwyd **119** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai. Er nad dyma'r nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod chwarter un yn y pum mlynedd ariannol diwethaf, yn y chwarter hwn y gwelwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.




## 13 CEF Berwyn

Cafodd **29** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yn CEF Berwyn, ac aethpwyd i **18** o'r rhain - mae hyn 125.0% yn fwy na'r llynedd.



## Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai

Er y bu ymchwydd mewn galwadau mewn ysbytai dros y cyfnod adrodd, mae nifer y galwadau yr aethpwyd iddynt yn gymharol sefydlog ac yn dangos bod y brysbennu ar y safle yn gweithio. Mae'r cydweithio parhaus rhwng partneriaid yn dwyn ffrwyth.

## Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn

Unwaith eto, cafwyd ymchwydd o alwadau a thanau yr aethpwyd iddynt oherwydd problem hysbys gyda fêps tafladwy yn cael eu defnyddio at ddibenion tanio. Bydd y broblem hon yn cael ei lleihau yn sgil cyflwyno fêps na ellir ymyrryd â hwy – mae'r broses o'u cyflwyno wedi cael ei chyflymu er mwyn gallu ei dechrau yn ystod mis Awst oherwydd yr ymchwydd mewn digwyddiadau.

**14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad**
Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System Dyletswydd Ar Alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

| **Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad ar Gyfartaledd 06:00-18:00** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Diwrnod/Mis | Ebrill | Mai | Mehefin | Ch1 |
| Llun-Gwener | 6 | 6 | 5 | 6 |
| Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc) | 14 | 14 | 12 | 13 |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | **9** | **9** | **7** | **8** |

Sylwch fod y nifer sydd ar gael wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer dechreuwyr ac ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod y chwarter, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd.

| Chwarter | Dechreuwyr | Ymadawyr | Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter | Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| **Ebr 2024 - Meh 2024** | 19 | 17 | 466 | 418 |
| **Ebr 2025 - Meh 2025** | 16 | 10 | 493 | 431 |
| **+/-** | **-3** | **-7** | **+27** | **+13** |


**Dechreuwyr** – nifer dechreuwyr y System Dyletswydd Ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

**Ymadawyr -** nifer ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn.

**Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter** – nifer y swyddi System Dyletswydd Ar Alwad sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

**Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)** – nifer yr unigolion sydd ar y System Dyletswydd Ar Alwad yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd




| Nifer y Dyddiau Pan Gyflawnwyd yr Argaeledd oedd wedi'i Gynllunio | |
|---|---|
| **100% o Bympiau Ar Gael: Wedi'i Fodloni** | |
| **Llun-Gwener** | 61 |
| **Penwythnos/Gŵyl y Banc** | 30 |


## 16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'n dibyniaeth fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau fel:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd a elwir yn FaRDaP (Llwyfan Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i'r llwyfan newydd gael ei gyflwyno.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd iddynt a oedd yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2025 a Mehefin 2025 ac mae'n cynnwys pob categori o ddigwyddiad.





D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylchedd


**16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau**

Cofnodwyd **254** o danau glaswelltir, coetir a chnydau yn ystod y chwarter, cynnydd o 316.4% o 61. Mae hyn 115.3% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 118.




## 17 Tanau gwyllt

Aethpwyd i **25** o danau gwyllt yn ystod y chwarter. Mae hyn yn gynnydd o 2400.0% ac mae 177.8% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o naw. O ganlyniad, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i dros **606 awr**, o'i gymharu â bron wyth awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.



## 18 Llifogydd

Aethpwyd i **bedwar** digwyddiad llifogydd, gostyngiad o 78.9% o 19, ac 11 digwyddiad yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 15.




Aethpwyd i **un** digwyddiad llifogydd i wneud y lleoliad yn ddiogel, aethpwyd i **un** i ddarparu cyngor yn unig, ac aethpwyd i **ddau** ddigwyddiad arall i bwmpio allan.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau ac offer, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr-agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i'w trin. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd iddynt.<br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun.<br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd iddynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad yn credu bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn. |
| Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio a pherson yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Anheddau | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. sy'n aelwyd lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |